# Crynodeb o Gyfarfod Haf

# Sir y Fflint Ifanc

# 23/06/2025

**Gweithdai'r bore**

**Gweithdy Moderneiddio Ysgolion**

Mae gan Gyngor Sir y Fflint gyfrifoldeb i adolygu a moderneiddio holl ddarpariaeth ysgolion, er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr, fel y gallant gyflawni eu potensial yn llawn. Cyflwynodd swyddogion o'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar eu rolau a'r ddau gynnig yr ymgynghorir arnynt ar hyn o bryd: Y Cynnig yn ymwneud ag Addysg Gatholig a'r Cynnig i Adrefnu Ysgol Gynradd Saltney Ferry ac Ysgol Gynradd Goffa Saltney Wood. Trafododd Sir y Fflint Ifanc y cynigion gan roi adborth i'r Tîm Moderneiddio ar gyfer yr ymgynghoriadau.

**Camau Gweithredu:** Aelodau o Sir y Fflint Ifanc i godi ymwybyddiaeth yn ymwneud â'r ymgynghoriadau a chyfeirio at y wefan lle gall y gymuned ddweud eu dweud.

**Ymgynghoriadau Cenedlaethol**

Fe weithiodd yr aelodau mewn tri grŵp i archwilio'r ymgynghoriadau agored canlynol gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys fersiynau'r bobl ifanc.

1. **Canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb**
2. **Cynllun Hawliau Pobl Anabl**
3. **Cynigion Bwyta'n Iach mewn Ysgolion**

Roedd hyn ar gyfer paratoi am drafodaeth bellach yn ystod Cyfarfod yr Haf.

**Cyfarfod yr Haf**

Cadeiriwyd Cyfarfod yr Haf gan dri unigolyn ifanc o Ysgol Uwchradd Castell Alun a Senedd Ieuenctid Cymru ar gyfer Delyn. Nodiadau o'r cyfarfod isod:

1. **Croeso a Chyflwyniadau**
2. **Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**

Mae aelodau wedi cyfeirio ysgolion a chymunedau lleoliadau ieuenctid at Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae rhai ysgolion wedi cysylltu â Theatr Clwyd i hyrwyddo'r gweithgareddau creadigol sydd ar gael ymhellach. Bydd Cynllun y Cyngor yn cael ei ryddhau ym mis Gorffennaf. Bydd newyddlen gyfathrebu ar gyfer pobl ifanc yn ymwneud â Chyngor Sir y Fflint yn cael ei lansio ym mis Medi. Bydd hyn yn cynnwys Newyddion Sir y Fflint a Galwadau i Weithredu, gyda rhan ar gyfer y Wybodaeth Ddiweddaraf am Sir y Fflint Ifanc. Mae Llyfrgelloedd Cymunedol yn cysylltu

gydag ysgolion i hyrwyddo gweithgareddau a chefnogi gyda syniadau. Mae Balch o'r Mislif a 3 Mater yn y rhaglen heddiw. Cynhaliwyd digwyddiad Pride yn Ysgol Uwchradd y Fflint ac roedd yn llwyddiannus iawn. Mae logo Sir y Fflint Ifanc yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd gan y Tîm Graffeg fel ei fod yn argraffu'n glir.

**3. Canllawiau gwrthfwlio Hawliau, parch, cydraddoldeb**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn ymgynghoriad cyhoeddus ar ei ganllawiau gwrthfwlio statudol diwygiedig, Hawliau, Parch, Cydraddoldeb, sydd wedi ei anelu at ysgolion a gynhelir a lleoliadau addysgol ar hyd a lled Cymru. Bydd y pwyntiau canlynol yn cael eu cyflwyno gydag ymateb yr Awdurdod Lleol i'r canllawiau o ganlyniad i drafodaeth ymhlith aelodau Sir y Fflint Ifanc.

- Nid oes digon o wybodaeth yn cael ei gyfleu yn Ymgynghoriad y Bobl Ifanc ar gyfer yr ysgol uwchradd yn benodol ar 'Gefnogi dysgwyr anabl' a 'Chefnogi dysgwyr LHDTC+.' Roedd pobl ifanc yn teimlo y dylai mwy o wybodaeth gael ei rhannu yn y ddogfen ymgynghori ysgolion uwchradd ar atal ac ymateb i fwlio ar gyfer y dysgwyr hyn i helpu dysgwyr i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac y bydd ysgolion yn eu cefnogi.

- Mae'n bosibl y bydd angen herio'r testun o dan 'Ymdrin â bwlio rhywiaethol' ar Dudalen 5 y ddogfen ymgynghori ar gyfer ysgolion uwchradd wrth gyfeirio at 'afael yn amhriodol' gan fod hyn yn ymosodiad rhywiol. Wrth edrych drwy'r 'Ddogfen canllaw ysgolion ar fwlio ac aflonyddu' nid yw'n ymddangos fod yna ddiffiniad ar gyfer bwlio rhywiaethol na gafael yn amhriodol y cyfeirir atynt drwy'r ddogfen. Dim ond cyfeiriad bach sydd at fwlio rhywiaethol ar Dudalen 38 yn y ddogfen hon.

- Caiff cynlluniau gwrthfwlio eu croesawu. Fe fyddai'n dda i ysgolion gael arweinydd staff a gweithgor dysgwyr.

- Cytunodd Sir y Fflint Ifanc fod dogfen ganllawiau'r ysgol yn hawdd i'w defnyddio. Trafodwyd sut y byddai ymagwedd gyson tuag at roi gwybod am fwlio ac addysgu yn ymwneud â bwlio, gyda negeseuon allweddol, o gymorth i'r holl ddysgwyr i gael yr un negeseuon .

- Mae yna fylchau yn y cwricwlwm ar gyfer darparu negeseuon heriol ac addysg gyson yn ymwneud â bwlio. Byddai adnodd gyda negeseuon cyson y gall pob ysgol eu defnyddio yn helpu i wneud herio bwlio yn glir. Mae deall fod pawb yn unigryw ac yn wahanol yn rhywbeth cadarnhaol. Mae ymwybyddiaeth yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig yn allweddol, ac mae adnoddau'r cwricwlwm gyda gwersi creadigol yn bwysig ar gyfer hyn.

- Adroddir ynglŷn â phwysigrwydd deall a chael gwybod beth sy'n digwydd ar ôl achos o fwlio. Gall pobl ifanc deimlo'n ddiamddiffyn a gall deall y sefyllfa helpu i greu teimlad o ddiogelwch a rheolaeth.

- Cefnogi darparu toiledau rhywedd-niwtral yn ychwanegol at doiledau lle mae'r rhywiau yn cael eu gwahanu. Mae'n enghraifft o ysgol y mae lleoliadau wedi arfer â hi yn ogystal â'r cymunedau ysgol.

**Camau Gweithredu**: Aelodau i rannu'r ddolen ymgynghori gyda'u cymheiriaid. Gall hyn fod yn weithgaredd a allai gael ei gwblhau gan gyngor yr ysgol, gweithgorau pobl ifanc hefyd.

## 4. Cynllun Hawliau Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo hawliau pobl anabl, ac i sicrhau fod pobl anabl yn cael eu cynnwys ac yn gallu cymryd rhan yn yr holl gymunedau yng Nghymru. Rydym eisiau gwneud Cymru yn lle cynhwysol a hygyrch ar gyfer pobl anabl; cymdeithas lle gall pobl anabl gymryd rhan heb derfynau na chyfyngiadau a lle maent wedi eu grymuso i fyw bywydau cyflawn, lle caiff eu hawliau unigol ac ar y cyd eu cydnabod a'u cynnal a lle caiff eu cyfraniad ei gydnabod. Bydd y pwyntiau canlynol yn cael eu cyflwyno gydag ymateb yr Awdurdod Lleol i'r canllawiau o ganlyniad i drafodaeth Sir y Fflint Ifanc:

- Pwysigrwydd deall fod yna anableddau gweladwy ac anweladwy. Os dysgir hyn mewn ysgolion yna byddai pawb yn tyfu i fyny gyda mwy o wybodaeth ac yn ymwybodol. Mae angen i bob hyfforddiant a awgrymir ar gyfer sefydliadau, gweithwyr a gwasanaethau gynnwys hyn hefyd gan nad yw nifer o bobl yn gwybod am anabledd nac yn ei ddeall.

- Nid oedd aelodau Sir y Fflint Ifanc wedi clywed am y Model Cymdeithasol o Anabledd a hoffent weld hwn yn cael ei gynnwys yn y cwricwlwm Iechyd a Lles mewn ysgolion.

- Mae'r adnodd gwybodaeth hwn wedi hyrwyddo 'Hyrwyddwr Cyflogaeth Pobl Anabl' ac nid oedd pobl ifanc yn Sir y Fflint Ifanc wedi clywed amdano o'r blaen. Mae hwn yn ymddangos fel dull gwych ar gyfer cefnogi cyflogwyr. Fe wnaed ymchwil pellach a arweiniodd at y cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd.

**Camau Gweithredu:** Aelodau i rannu dolen yr ymgynghoriad gyda'u cymheiriaid. Gallai hyn fod yn weithgaredd a allai gael ei gwblhau gan gyngor yr ysgol, gweithgorau pobl ifanc hefyd.

## 5. Cynigion Bwyta'n Iach mewn Ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau fod pawb yn cael bwyd iach, gyda bwyd ysgol yn well ac yn iachach. Mae'r Rheoliadau a'r Canllawiau Bwyd, Diod a Maeth yn mynd i gael eu diweddaru gyda'r ffocws i ysgolion uwchradd ar yr isod:

- bod yn eglur ynglŷn â pha fwyd a diodydd a gynigir i chi yn yr ysgol
- helpu ysgolion i annog bwyta ac yfed yn iach

Bydd y pwyntiau canlynol yn cael eu cyflwyno gydag ymateb yr Awdurdod Lleol i'r canllawiau o ganlyniad i drafodaeth Sir y Fflint Ifanc:

- Gyda brecwast a chinio am ddim fel rhan o'r cynnig mewn lleoliadau cynradd, a allai hyn gael ei ymestyn i leoliadau uwchradd hefyd? Mae'n enghraifft o arferion da ac yn hyrwyddo dechrau hanfodol i'r diwrnod a bwyta amser cinio. Mae'r cynnig cynradd ac uwchradd yn wahanol iawn. Pan fo pobl ifanc Blwyddyn 6 yn trosglwyddo i'r uwchradd, dylai'r cynnig bwyd wneud hynny hefyd.

- Gall hyd egwyliau bore ac amser cinio amrywio ar draws ysgolion. Byddai'n dda pe byddai'n gyson ar draws yr holl ysgolion. Byddai hyn yn sicrhau fod gennym ni amser i fwyta a chanolbwyntio ar ein bwyd.

- Mae bwydydd casglu a mynd yn boblogaidd iawn a phan fo egwyliau amser cinio yn fyrrach maent yn opsiwn haws i'w ddewis er y gallant hefyd fod y dewis nad yw'n iach. A ellid gwneud mwy o waith o ran opsiynau casglu a mynd iach?

- Gydag ambell ffreutur yn fach gall y ffreutur ddod yn brysur iawn gyda llawer o giwiau ac felly caiff llawer o amser ei dreulio yn ciwio a all achosi straen ac wedyn amser byr sydd yna i yfed a bwyta, ac yn aml bydd y cynnig o ran bwyd a diod yn llai hefyd.

- Byddai mwy o ganllawiau ar beth ddylai'r cynnig fod o ran bwyd a diod mewn ysgolion uwchradd yn dda. Rydym wedi gweithio gyda darparwr yn Sir y Fflint i ddatblygu bwydlen y mae'r mwyafrif o ysgolion yn ei dilyn. Pe byddai gan yr holl ysgolion yng Nghymru yr un fwydlen a chynnig yna byddai hynny'n helpu gyda chyfathrebu a'r holl negeseuon sy'n cael eu cyhoeddi.

- Gall rhai bwydydd a diodydd sy'n cael eu cynnig fod yn ddrud. Byddai'n dda pe byddai hyn yn ymagwedd gyson ar draws Cymru.

- Byddai negeseuon cyson o ran bwyta'n iach yn ddefnyddiol ar draws y lleoliadau cynradd ac uwchradd y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol. Mae hyn wedi gweithio'n dda yn y sesiynau haf Bwyd a Hwyl a phe byddai negeseuon allweddol yn cael eu hyrwyddo drwy'r uwchradd yna byddai hynny'n dda hefyd. Efallai drwy brosiect ymwybyddiaeth cenedlaethol.

- Nid yw opsiynau iach yn yr ysgolion uwchradd yn cael eu hannog ddigon. Mae yna naid fawr o'r cynnig Cynradd, lle mae'n fwy cyfyngedig ac wedi ei reoli, i'r dewis sydd ar gael ym Mlwyddyn 7 ac uwch. Dyma lle gall y negeseuon ddod yn anghyson ac yna gall arferion drwg ffurfio.

- Mae gan rai ysgolion Grwpiau Gweithredu ar Faeth yn yr Ysgol cryf ac mae eu lleoliadau'n ymgorffori prosiectau bwyd a diod gan gynnwys cyfarfod staff y ffreutur a chyngor yr ysgol. Rydym yn credu fod hyn yn bwysig a byddai'n dda pe byddai mwy o awgrymiadau'n cael eu rhannu ar hyn ar gyfer Cymru gyfan.

- Mae deall deiet iach yn bwysig ond mae hyn yn tueddu i gael ei ddeall yn fwy a'i roi ar waith gan bobl ifanc yn ystod blynyddoedd arholiadau. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe byddai'r addysg a'r negeseuon o amgylch hyn yn digwydd yn gynharach mewn ysgolion uwchradd.

**Camau Gweithredu:** Aelodau i rannu'r ddolen ymgynghori gyda'u cymheiriaid. Gallai hyn fod yn weithgaredd a allai gael ei gwblhau gan gyngor yr ysgol a gweithgorau pobl ifanc hefyd.

**6. Ymrwymiadau Balch o'r Mislif Sir y Fflint**

Mae'r Ymrwymiadau Balch o'r Mislif wedi eu hailddrafftio yn dilyn adborth pellach gan bobl ifanc a'r gymuned. Ni awgrymwyd unrhyw ddiwygiadau pellach.

**Camau Gweithredu:** Ymrwymiadau Balch o'r Mislif i'w hanfon i'r tîm graffeg ar gyfer eu dylunio a'u hargraffu yn barod ar gyfer tymor newydd yr hydref.

**7. Perthyn**

Rhannwyd trosolwg o'r prosiect Perthyn gyda Chenhadaeth Ddinesig Wrecsam gan gynnwys lluniau o'r holl weithdai. Wedi ei nodi'n wreiddiol fel thema o Arolwg Pobl Ifanc yr Hydref, mae gwaith prosiect wedi helpu i lywio Strategaeth Berthyn ar gyfer y Portffolio Addysg ac Ieuenctid yn y cyngor. Rhoddodd y Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid, Claire Homard, y wybodaeth ddiweddaraf i Sir y Fflint Ifanc ar y Strategaeth Berthyn. Bwriad y Strategaeth Berthyn yw cefnogi gwella presenoldeb ac ymgysylltiad yn yr ysgolion yn Sir y Fflint. Ar 9 Mai yng nghynhadledd Penaethiaid Sir y Fflint, rhannwyd gwaith Sir y Fflint Ifanc a thrafodwyd y cynnig ar gyfer y

strategaeth hon. Roedd y penaethiaid yn gwerthfawrogi safbwyntiau Sir y Fflint Ifanc ar Berthyn. Mae gweithgor wedi ei sefydlu yn cynnwys staff portffolio a staff ysgolion. Mae Jenette Rock, uwch reolwr Addysg ac Ieuenctid yn arwain ar y strategaeth. Ddydd Iau 19 Mehefin fe gymeradwyodd aelodau'r pwyllgor y strategaeth.

**Camau Gweithredu:** Dolen i Adroddiad y Strategaeth Berthyn a'r Gweddarllediad o 19 Mehefin i'w rannu gydag Aelodau Sir y Fflint Ifanc ac arweinwyr y cyngor ysgol. Aelodau i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf hon gyda'u cymheiriaid.

**8. Fe Ddywedoch Chi, Rydym Wedi Gweithio Gyda Chi**

Rhannwyd trosolwg o'r camau gweithredu a gyflawnwyd hyd yma eleni yn ogystal â'r wybodaeth ddiweddaraf ar effeithiau. Roedd darparwyr wedi cael cais i gyflwyno diweddariadau manwl ar yr effaith o ymgysylltu gyda Sir y Fflint Ifanc.

**Camau Gweithredu:** Unwaith y bydd yr holl ddiweddariadau wedi eu derbyn byddant yn cael eu cydgasglu i lunio Adroddiad Effaith 2025-2026 a'u rhannu gydag aelodau Sir y Fflint Ifanc.

**9. Arolwg 3 Mater**

Cafodd y 3 prif fater o'r arolwg haf a arweiniwyd gan y Cyngor Ieuenctid eu rhannu. Dyma'r materion:

1. Ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgarwch troseddol
2. Defnyddio sylweddau
3. Diffyg mannau a rennir ac adloniant

Cytunodd Sir y Fflint Ifanc fod rhain yn feysydd i'w harchwilio ymhellach a byddant yn cael eu hychwanegu i gynllun gwaith 2025-2026. Mae'r diffyg mannau ac adloniant yn parhau â'r ffocws ar weithgareddau creadigol. Roedd ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgarwch troseddol, ynghyd â chamddefnyddio sylweddau, yn y pum mater uchaf ar gyfer 2024-2025 ac maent wedi dod yn fwy amlwg erbyn hyn.

**Camau Gweithredu:** Cynnwys y tri phwnc hwn yng nghynllun gwaith 2025-2026.

**Dyddiadau ac amseroedd y cyfarfod nesaf:**

Awgrymwyd y model arfaethedig ar gyfer 2025-2026, roedd pawb yn cytuno fod hwn yn fodel da**:**

- Gweithdy misol ar ôl ysgol (Bob trydydd dydd Mawrth yn y mis) 4.30-6.30pm Tŷ Dewi Sant, Ewloe.
- Un cyfarfod diwrnod llawn bob tymor (yr Hydref / y Gwanwyn a'r Haf) yn Nhŷ Dewi Sant, Ewloe.

Gwnaed cais hefyd am fynychu'r sesiynau ar-lein.

**Camau Gweithredu:** Cadarnhau'r dyddiad ar gyfer sesiynau'r flwyddyn nesaf a chynnal sesiynau yn defnyddio'r model Hybrid.